1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ1 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru

Mrs Wendy Walters
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Gâr
Neuad y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

**Cyfeirnod:**

**Dyddiad cyhoeddi:** Mai 2023

Annwyl Wendy

# Diweddariad Cynnydd ar Sicrwydd ac Asesu Risg – Y sefyllfa ariannol

Yn dilyn ein cyfarfod gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn gynharach eleni, fe ddwedom ni y byddem yn adrodd yn ôl yn fwy ffurfiol ar rai agweddau penodol ar ein gwaith sicrwydd ac asesu risg yr ydym wedi ei wneud. Mae'r llythyr hwn yn darparu diweddariad cynnydd ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

Fe wnaed y gwaith hwn fel rhan o'n prosiect Sicrwydd ac Asesu Risg (SAR) 2021-22 i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol[1].

[1] Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). Gall hefyd fod yn sail i astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydym yn cydnabod bod yr hinsawdd ariannol yn awr ac yn y dyfodol yn gryn her ac yn newid drwy'r amser ac felly mae'r adborth yma'n darparu diweddariad sicrwydd a risg ar adeg benodol mewn perthynas â sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer 2021-22.

## Diweddariad ar y Sefyllfa Ariannol 2021-22

### Yr hyn a wnaethom

Fe gynhaliom ni ein hasesiad o Sefyllfa Ariannol y Cyngor yn 2021-22 rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2022. Casglwyd y dystiolaeth trwy gyfweliadau ac adolygiadau o ddogfennau ac roedd yn cynnwys ystyried sefyllfa'r Cyngor o ran ei gronfeydd ariannol wrth gefn, cyflawni arbedion wedi'u cynllunio a pherfformiad yn erbyn y gyllideb a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn. Er bod ffocws ein gwaith ar flwyddyn ariannol 2021-22, lle y bo'n briodol, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i wybodaeth ariannol ddiweddarach lle mae hyn yn helpu i gyd-destunoli'r sefyllfa**.**

Fe wnaethom hefyd gyhoeddi Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol ym mis Chwefror 2022 sy'n cynnwys ystod o ddata ariannol ar gyfer cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

### Yr hyn a ganfuom

**Mae'r Cyngor yn flaenorol wedi dangos cynaliadwyedd ariannol da ac wedi cynllunio ar gyfer parhau i wneud arbedion effeithlonrwydd i gau'r bwlch a adnabuwyd o ran cyllid yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae cyflawni ei arbedion wedi'u cynllunio yn y dyfodol mewn hinsawdd ariannol fwyfwy heriol yn risg barhaus sylweddol i'r Cyngor**

### Strategaeth ariannol

Cyflwynwyd Strategaeth Cyllideb Refeniw (SCR) y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 2022-23 a 2024-25 i'r Cabinet ym mis Chwefror 2022. Roedd hon yn dangos cyllideb wariant ar gyfer 2022-23 o £419.746 miliwn, i fyny o'r ffigwr o £388.743 yn 2021-22. Gydag arbedion effeithlonrwydd wedi'u cynnwys, fe ostyngodd y ffigyrau hyn i £416.079 miliwn a £386.232 miliwn yn y drefn honno.

Cyn cyhoeddi SCR mis Chwefror 2022, fe gynhaliodd y Cyngor ddigwyddiadau ymgynghori â'r cyhoedd a sesiynau gydag Aelodau, Pwyllgorau Craffu a Chynghorau Tref a Chymuned.


Ar gyfer SCR mis Chwefror 2022, fe bennodd y Cyngor ffactorau chwyddiannol ar 4% yn ei gyllideb ddrafft, ffigwr a oedd islaw rhagolygon Banc Lloegr ar gyfer cyfradd frig o 7% yn ystod 2022-23.

Dim ond i wariant y cymhwyswyd y ffigwr hwn o 4%. Pennwyd cyfradd o 2.5% ar gyfer codiadau mewn incwm, gan adlewyrchu'r pwysau a oedd eisoes yn wynebu aelwydydd a thrigolion.

Mae cyllidebau hefyd yn tybio y bydd staff y Cyngor ac athrawon yn cael codiad cyflog o 4% yn ystod 2023-24.

Mae **Arddangosyn 1** isod yn dangos y bwlch ariannu rhagamcanol, fel a amlinellwyd yn Strategaethau Cyllideb Refeniw mis Chwefror 2021 a mis Chwefror 2022. Ar adeg ysgrifennu, mae SCR mis Chwefror 2022 yn dangos bod y Cyngor yn rhagamcanu y bydd ei fwlch ariannu'n llai yn 2022-23 a 2023-24 na'r bylchau a ragamcanwyd yn SCR mis Chwefror 2021.

**Arddangosyn 1: O ran y sefyllfa ym mis Chwefror 2022, roedd y bwlch ariannu yr oedd y Cyngor yn ei ragamcanu yn 2023-24 yn £3.9 miliwn, sef £1.3 miliwn yn is na'r ffigwr a ragamcanwyd ym mis Chwefror 2021 ar gyfer yr un flwyddyn ariannol**




Mae SCR mis Chwefror 2022 yn dangos y rhagamcanir sefyllfa well yn y dyfodol mewn perthynas â bwlch ariannu'r Cyngor, o'i gymharu â SCR mis Chwefror 2021.

Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023-24, mae'r bwlch ariannu rhagamcanol yn £11.729 miliwn (dros dair blynedd). Mae hyn yn cymharu â'r ffigwr yn SCR mis Mawrth 2021 o £12.928 miliwn (ar gyfer yr un tair blynedd ariannol).

Mae'r sefyllfa well a amlinellwyd yn SCR mis Chwefror 2022 i'w phriodoli i nifer o ffactorau, gan gynnwys:

- Ailgyfrifo cost y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol, sy'n golygu bod ei effaith £500,000 yn llai
- Cynnydd yn yr Ardoll Tân
- Bu cynnydd yn setliad y Grant Cynnal Refeniw (£311 miliwn) o'i gymharu â'r £290 miliwn a ragwelwyd

**Arddangosyn 2: O ran y sefyllfa ym mis Chwefror 2022, roedd y Cyngor yn rhagweld diffyg cronnol yn y cyllid o £11.729 miliwn erbyn 2023-24 - £1.2 miliwn yn is na'r ffigwr a ragwelwyd ym mis Chwefror 2021 ar gyfer yr un flwyddyn ariannol**



## Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy

Er bod cost net gwasanaethau wedi aros yn debyg yn 2019-20 a 2020-21, mae cyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu bob blwyddyn rhwng 2016-17 a 2020-21. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020-21, roedd gan y Cyngor gyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy o £134 miliwn (mae hyn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn Wedi'u Clustnodi, cronfeydd wrth gefn ysgolion a balansau cyffredinol). Mae hynny'n cyfateb i 36.1% o gost net gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol honno, y drydedd ganran uchaf ar gyfer yr holl gynghorau yng Nghymru.

Yn SCR mis Chwefror 2022, dywedodd y Cyngor '...er na ddylai'r defnydd o gronfeydd wrth gefn i gefnogi cyllidebau blynyddol gael ei ddiystyru'n ddiseremoni, rhaid ei drin â phwyll'.

Cyflawnwyd y cynnydd hwn yng nghyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy trwy gyfuniad o gyllid gan Lywodraeth Cymru a oedd naill ai'n gyllid na chynlluniwyd ar ei gyfer neu'n gyllid o ffrydiau ariannu sydd wedi cael eu dirwyn i ben, a thrwy danwariannau gan wasanaethau.

Mae'n annhebygol y bydd cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n parhau i gynyddu mewn blynyddoedd ariannol yn y dyfodol o ystyried y rhagolygon ariannol a'r pwysau a wynebir gan y Cyngor.

**Arddangosyn 3: Er bod cost net gwasanaethau wedi codi dim ond £33 miliwn dros y pedair blynedd ariannol ddiwethaf, mae cyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi codi bron £75 miliwn yn yr un cyfnod – cynnydd o 58%**

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22[2] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cost Net Gwasanaethau (£Miliynau) | 350.93 | 355.17 | 373.18 | 373.89 | 371.53 | 388.981 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy (£Miliynau) | 85.15 | 92.44 | 93.9 | 100.84 | 134.11 | 167.487 |

[2] Cymerwyd ffigyrau ar gyfer 2021-22 o'r Datganiad Cyfrifon (Wedi'u cyhoeddi yn amodol ar gael eu Harchwilio)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22[2] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau (%) | 24.3 | 26.0 | 25.2 | 27.0 | 36.1 | 43.0 |
| Safle'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o gostau net o'i gymharu â holl gynghorau Cymru | 5th | 5th | 5th | 4th | 3rd | N/A |

**Cyflawni arbedion**

Fe wnaethom adrodd ym mis Hydref 2021 fod y modd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei arbedion wedi'u cynllunio wedi dirywio.

Yn 2020-21, cyflawnodd y Cyngor 51% o'i arbedion wedi'u cynllunio; fodd bynnag, hon oedd blwyddyn gyntaf y pandemig. Hon oedd yr ail flwyddyn ariannol o'r bron pan fu gostyngiad yng nghanran yr arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd.

Yn 2021-22, fe adolygodd y Cyngor ei arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol honno. £5.930 miliwn oedd ei darged blaenorol ar gyfer arbedion yn 2021-22, ond cafodd hwn ei addasu ym mhapur y Cabinet ym mis Chwefror 2021 i £2.511 miliwn. Cafodd y targed hwn ei leihau oherwydd setliad gwell gan Lywodraeth Cymru, cyllid argyfwng ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, a chydnabyddiaeth bod y capasiti i gyflawni arbedion yn ystod pandemig yn llai o lawer.

Mae targedau arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer 2022-23 a 2023-24 wedi aros yn ddigyfnewid, ar £5.209 miliwn yn 2022-23 a £5.208 miliwn yn 2023-24.

Roedd y newidiadau a wnaed ar gyfer 2021-22 yn cwmpasu pum maes gwasanaeth, gyda'r mwyafrif yn cael eu dyrannu fel a ganlyn:

- £979,000 i'r adran Addysg a Phlant
- £1.495 miliwn i'r adran Cymunedau
- £699,000 i adran yr Amgylchedd

Fel a nodir isod, roedd sefyllfa net y Cyngor yn un o danwariant yn erbyn gwariant wedi'i gynllunio yn 2021-22.

Oherwydd effaith ariannol COVID, o ran bod y Cyngor wedi cael cyllid na chynlluniwyd ar ei gyfer ac atal darpariaeth am y tro neu leihau'r ddarpariaeth gan rai gwasanaethau, mae'n anodd deall a gyflawnwyd yr arbedion wedi'u cynllunio yn 2021-22.

**Perfformiad yn erbyn y gyllideb**

Cafodd Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2021-22 gan y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol ei gyflwyno i'r Cabinet ar 25 Gorffennaf 2022. Roedd yr adroddiad hwn yn dangos tanwariant ar lefel adrannol o £5.345 miliwn. Ar ôl ystyried codiannau cyfalaf a'r symudiad mewn cronfeydd wrth gefn Wedi'u Clustnodi ac Adrannol, roedd y sefyllfa net ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor yn danwariant o £1.433 miliwn.

Mae'r adroddiad yn amlinellu mai'r prif resymau dros y tanwariant yn 2021-22 oedd:

- bod rhai gwasanaethau wedi cael eu hatal am y tro neu eu lleihau oherwydd y cyfyngiadau symud, gan arwain at lai o wariant;
- prinderau staffio, a arweiniodd at danwariant ar gyflogau;
- defnyddio tanwariant cyfalaf ar draws gwahanol feysydd yn y gyllideb; a
- chyllid o Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru a ffrydiau cyllid grant ychwanegol eraill.

Er mai tanwariant oedd y sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2021-22, dim ond trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a chyllid anghylchol gan Lywodraeth Cymru y cyflawnwyd y sefyllfa hon.

Yn arbennig, byddai pwysau ar wasanaethau yn yr adrannau Cymunedau ac Addysg a Phlant wedi arwain at orwariant oni bai am gyllid o Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru a nifer o swyddi gwag.

**Pwysau yn y dyfodol**

Mae setliadau cyllid dangosol Llywodraeth Cymru ar sail Cymru gyfan o 3.5% a 2.4% yn y drefn honno ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn darparu rhywfaint o sicrwydd ynghylch cyllid dros y tymor canolig. Fodd bynnag, bydd cynllunio ariannol tymor canolig yn dal i ddibynnu ar ystod o dybiaethau, ac ar y cyd â'r dirwedd economaidd-gymdeithasol newidiol yn y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd sylweddol, mae'n golygu y bydd cynllunio ar gyfer cydnerthedd ariannol a chylchoedd y gyllideb yn y dyfodol yn dal i fod yn gryn her i gynghorau.

Ar 3 Hydref 2022, fe gyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol adroddiad i'r Cabinet a oedd yn diweddaru CATC mis Chwefror 2022. Roedd yr adroddiad hwn yn nodi bod llawer o'r tybiaethau a wnaed ym mis Chwefror 2022 wedi cael eu goddiweddyd gan ddigwyddiadau mwy diweddar, a bod amgylchiadau newydd wedi dod i'r amlwg ers hynny, y maent i gyd yn golygu bod angen i'r tybiaethau yn y model ariannol a wnaed ym mis Chwefror 2022 gael eu hadolygu.

Ceir ansicrwydd mawr yn awr ynglŷn â lefel setliad ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod o 2022-23 ymlaen a bydd y gyfradd chwyddiant debygol yn llawer uwch nag a ragwelwyd. Bydd codiadau llym ym mhrisiau ynni'n effeithio ar gostau trafnidiaeth yn ogystal â chyflenwadau gwresogi a thrydan. Bydd y codiadau hyn yn effeithio ar y Cyngor a thrigolion.

Bydd yr argyfwng costau byw ehangach yn effeithio ar drigolion, a allai gael effaith ddilynol ar daliadau i'r Cyngor, yn enwedig taliadau'r dreth gyngor. Gallai'r Cyngor weld gostyngiad yn yr incwm y mae wedi cynllunio ar ei gyfer o'r ffynonellau hyn.

Mae arian cymorth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru i liniaru materion a oedd yn gysylltiedig â COVID yn debygol o ddod i ben yn 2022-23, yn arbennig Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022. Mae'r gronfa hon wedi helpu i gefnogi cyllid y Cyngor yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf.

Yn gywir,

**Archwilio Cymru**